Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

# Cyngor Cymuned Ystrad Fflur - Tystysgrif ac adroddiad archwyliad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae adroddiad archwyliad cymwysiedig wedi ei gyhoeddi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Mae manylion y mater sydd wedi arwain ar y cymhwyster isod:

**Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar ôl cymeradwyaeth y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiadau cyfrifyddu**

Mae Rheoliad 15(1) o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwylio (Cymru) 2014 yn datgan fod rhaid i'r Swyddog Arianol Cyfrifol lofnodi a dyddio'r Datganiadau cyfrifyddu er mwyn ardystio fod y Datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr awdurdod a'i incwm a gwariant yn deg, neu cyflwyno derbynebau a thaliadau yn deg, yn ôl y digwydd. Mae Rheoliad (2) yn datgan pan fod y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi cydymffurfio gyda paragraff (1), dylai'r awdurdod, yn y drefn canlynol:

(a) Ystyried y datganiad o'r cyfrifon mewn cyfarfod llawn y Cyngor;
(b) Cymeradwyo y datganiad o'r cyfrifon trwy ddatrysiad; ac
(c) Sicrhau fod y datganiad o'r cyfrifon wedi'i arwyddo a'i ddyddio gan y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddir y gymerdwyaeth.

Felly, dylai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio y Datganiadau cyfrifyddu cyn fod yr awdurdod yn eu hystyried a'u cymeradwyo.

Ardystiwyd y Datganiadau cyfrifyddu gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer y Cyngor ar y 19 Mehefin 2020, ar ôl i'r Cyngor eu cymeradwyo ar y 18 Mehefin 2020. Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau fod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r Datganiadau cyfrifyddu cyn fod yr awdurdod yn eu hystyried, cymeradwyo ac arwyddo yn unol â Rheoliad 15. Yr ateb cywir ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Honiad 1 yw 'Naddo'.
Yn ogystal â hyn, fe wnaethom nodi materion eraill yn ystod ein hadolygiad, materion yr hoffen dynnu sylw at. Nid ydy hwn yn effeithio ar ein barn archwyliad, ond ddylai'r Cyngor eu cydnabod.

**Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**

Nid oedd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a ddanfonwyd i'r Archwilydd Allanol yn ffeithiol gywir. Atebodd yr Archwilydd Mewnol 'Naddo' i brawf 6. Yr ateb cywir yw 'Amh', gan nid yw'r Cyngor yn gweithredu gyda arian mân.

Dylai'r Cyngor sicrhau fod adroddiad yr Archwilydd Mewnol yn cael ei adolygu cyn danfon y ddogfen i'r Archwilydd Allanol. Dylai'r Cyngor gofnodi'r broses yma yn munudau y Cyngor. Os oes unrhyw gamgymeriadau yn yr adroddiad dylai hwn gael ei ddiwygio, neu dylai'r Cyngor ddarparu esboniad am y camgymeriad.

**Llythyr Penodi Archwilydd Mewnol**

Nodon ni fod y Cyngor wedi derbyn llythyr penodi gan yr Archwilydd Mewnol. Er hyn, mae'r llythyr penodi wedi'i ddyddio ar ôl i'r Archwilydd Mewnol gwblhau yr Archwiliad Mewnol. Yn y dyfodol, rydym yn awgrymu fod y Cyngor yn derbyn llythyr penodi sydd yn amlinellu'r tasgau bydd yr Archwilydd Mewnol yn ei wneud ac wedi'i ddyddio cyn bod yr Archwiliad Mewnol yn digwydd.

**Sieciau heb ei gyflwyno**

Nodon ni fod siec heb ei gyflwyno o £10 o 2018/19 wedi ei ddileu eleni ac ychwanegwyd i Focs 1, Balansau a ddygwyd ymlaen. Nid yw hwn yn gywir. Dylid hebgor y siec o Focs 6. Dylai'r Cyngor ddiwygio'r ffigurau fel y canlyn:

**2018/19**

Bocs 11, Balansau a gariwyd ymlaen: **£888**

**2019/20**

Bocs 1, Balansau a ddygwyd ymlaen: **£888**

Bocs 6, Cyfanswm taliadau eraill: **£3,603**

Ddylai'r Cyngor ailddatgan ffigurau 2020 ar Ffurflen Flynyddol blwyddyn nesaf ac ysgrifennu "ailddatgan" o dan yr arwydd £ yng ngholofn 2020.

Yr eiddoch yn gywir,

*Grant Thornton UK LLP*

Ar gyfer ac ar ran Archilwydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 20 November 2020

Cyfeirnod: WAL123